



PACTO

Pembrokeshire Association of Community Transport Organisations
Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro

Trysorydd

Tâl:	Swydd wirfoddol, sy'n elwa o honorariwm o £500 y flwyddyn. (Ad-delir costau teithio a threuliau rhesymol allan o boced hefyd)
Oriau:	~12 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd Cyllid, cyfarfodydd Bwrdd, Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, swyddogaethau / digwyddiadau cyswllt eraill
Isafswm ymrwymiad dymunol:	3 mlynedd
Uchafswm tymor y swydd:	Dim uchafswm, ond yn dibynnu ar ailbenodi bob 3 blynedd

Crynodeb

Mae PACTO (Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro) yn casglu at ei gilydd, yn cefnogi ac yn cynrychioli'r sector cludiant cymunedol yn Sir Benfro.

Rydym yn chwilio am Drysorydd newydd i ymuno â'r tîm Ymddiriedolwyr.

Mae hon yn rôl strategol, gan arwain a chefnogi'r Bwrdd a'n Rheolwr Datblygu ar faterion ariannol. Ni fydd yn ofynnol i'r Trysorydd ymgymryd â thasgau cadw llygad neu weinyddol ariannol o ddydd i ddydd.

Mae hon yn swydd wirfoddol, ond o ystyried y sgiliau penodol sydd eu hangen, gallwn gynnig honorariwm o £500 y flwyddyn.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl, neu i fynegi diddordeb, cysylltwch â'n Rheolwr Datblygu, Debbie ar debbie@pacto.org.uk neu 01437 776550.

Ynglŷn â PACTO

Ffurfiwyd PACTO yn 2004, fel rhan o elusen leol Cludiant Gwirfoddol Sir Benfro, a daeth yn Elusen a Chwmni Cyfyngedig trwy Warant yn ei hawl ei hun yn 2011. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 4 aelod o staff ac roedd ein hincwm flwyddyn ariannol ddiwethaf yn £279,000, yn bennaf yn y ffurf o grantiau cyfyngedig. Rydym yn derbyn cyllid craidd gan Gyngor Sir Penfro, ac ar hyn o bryd rydym yn rheoli dau brosiect 5 mlynedd a ariennir gan y Loteri Fawr, yn ogystal â phrosiectau eraill a ariennir gan grantiau.

Rydym yn cefnogi, yn cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol yn Sir Benfro, gan helpu pobl a allai fel arall gael trafferth i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd. Nid ydym yn gweithredu gwasanaethau cludiant yn uniongyrchol, ond rydym yn cydlynu ystod o weithgareddau ategol, megis recriwtio gwirfoddolwyr, cyhoedduswydd, hyfforddiant gyrwyr bws mini, cyngor a chefnogaeth i weithredwyr trafndiaeth gymunedol, a thîm o wirfoddolwyr Cyfeillion Bws i helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol i deithio trwy gludiant cyhoeddus neu gymunedol.

Disgwyliadau'r Trysorydd

Disgwylir i'r Trysorydd fynychu cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr PACTO yn cwrdd bob deufis, ar yr ail fore Llun o Ionawr, Mawrth, Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd.

Disgwylir i'r Trysorydd adolygu papurau ac adroddiadau ariannol cyn pob cyfarfod bwrdd a mynychu cyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu PACTO i fynd drwyddynt, os oes angen. Yn y cyfarfod bwrdd, gofynnir i'r Trysorydd arwain ar yr eitemau cyllid ar yr agenda, gyda chefnogaeth y Rheolwr Datblygu.

Bydd y Trysorydd yn Ymddiriedolwr o'r Elusen, ac mae'r disgwyliadau cyffredinol a roddir ar ymddiriedolwyr eraill oll yn berthnasol i rôl y Trysorydd yn ychwanegol at y rhai a bennir yn y ddogfen hon.

Disgwylir i'r Trysorydd fynychu:

- Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr fel yr uchod a sesiynau hyfforddi perthnasol (tua 6 y flwyddyn)
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol PACTO a chyflwyno'r Cyfrifon Blynyddol
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cadeirydd a'r Rheolwr Datblygu (tua 6 y flwyddyn)
- Cyfarfodydd ad hoc yn ôl yr angen, er enghraifft gyda chyllidwyr allweddol

Bydd y Trysorydd hefyd yn un o'r llofnodwyr ar gyfrif banc yr Elusen, a rhaid iddo wneud pob ymdrech i fod ar gael i awdurdodi taliadau ar-lein a / neu fynychu'r swyddfa i arwyddo sieciau, yn ôl yr angen.

Cyfrifoldebau a dyletswyddau allweddol y Trysorydd

- Arwain a chynghori'r Bwrdd wrth gymeradwyo cyllidebau, cyfrifon a datganiadau ariannol, o fewn fframwaith polisi ariannol perthnasol
- Diweddarau'r Bwrdd yn wybodus am ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ariannol
- Cadarnhau bod adnoddau ariannol yr Elusen yn bodloni ei anghenion presennol ac yn y dyfodol a bod polisi cronfeydd wrth gefn priodol
- Deall y gweithdrefnau cyfrifyddu a'r rheolaethau mewnol allweddol er mwyn gallu sicrhau'r Bwrdd bod uniondeb ariannol yr Elusen yn gadarn
- Sicrhau bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan gyfrifwyr cymwys (rydym yn defnyddio Bevan and Buckland ar hyn o bryd) a bod unrhyw argymhellion y maent yn eu gwneud yn cael eu trafod gan y Bwrdd a'u gweithredu, os caiff eu derbyn.
- Cysylltu â'r cyfrifwyr i gyflwyno'r cyfrifon yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gan dynnu sylw at bwyntiau pwysig, naill ai mewn adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar
- Sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u datgelu yn y ffurf sy'n ofynnol gan gyllidwyr perthnasol a chyrrff statudol (gan gynnwys y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau), gan gydgyssylltu'n agos â'r Cadeirydd a'r Rheolwr Datblygu
- Monitro gweithgarwch buddsoddi'r Elusen (os o gwbl) a sicrhau bod ei bolisi buddsoddi yn gyson â pholisïau, nodau, amcanion a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Elusen
- Cadw'n wybodus a diweddar ar ddeddfwriaeth a chanllawiau elusennau ac ariannol.
- Datblygu perthynas agored ond broffesiynol gyda'r Rheolwr Datblygu lle gall pob un siarad yn agored am bryderon a heriau